



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD – SIR BENFRO YN DYSGU

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cwmpasu'r ffordd y bydd Cyngor Sir Penfro (fel Rheolydd Data) yn casglu, yn defnyddio ac yn rhannu eich data personol at ddibenion cyrsiau Dysgu Oedolion a'r Gymuned Sir Benfro yn Dysgu.

Pam bod angen eich gwybodaeth arnom (at ddibenion prosesu)

Rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth personol fel y gallwn weinyddu cyrsiau Dysgu Oedolion a'r Gymuned a'u darparu ar eich cyfer.

Caiff eich data eu prosesu:

- Oherwydd bod angen gwneud hynny er mwyn cyflawni'r dasg hon
- Oherwydd eich bod wedi cydsynio i gyfathrebu digidol

Caiff y wybodaeth a ddarparwch ei prosesu yn unol â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, Deddf Diogelu Data 2018, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru Llywodraeth Cymru, a rheoliadau eraill sy'n ymwneud â chyllid grant a fyddai'n gefnogi'ch dysgu ac unrhyw achrediad.

Mae dyletswydd arnom i warchod yr arian cyhoeddus a weinyddir gennym ac mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych ar y ffurflen hon i roi gwybodaeth i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.

Byddwn hefyd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/rhwystro twyll/trosedd neu am archwilio/gweinyddu cyllid cyhoeddus er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chosteffeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, caiff gwybodaeth ei rhannu gyda'n Gwasanaeth Archwilio o fewn Cyngor Sir Penfro ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ni fyddwn yn gwneud unrhyw ddatgeliadau i drydydd partïon at ddibenion marchnata.

Bydd eich data bob amser yn ddiogel ac yn gyfrinachol a dim ond y wybodaeth personol sydd ei hangen er mwyn darparu ein gwasanaeth i chi y byddwn yn ei chasglu.

Dysgu ar-lein – Lle mae dysgu ar-lein neu ddysgu cyfunol yn rhan o'ch dewis gwrs, trosglwyddir rhywfaint o wybodaeth personol o'ch cofrestrriad ar y cwrs drwy integreiddio â Pharth Dysgu Sir Benfro yn Dysgu a gynhelir gan Goleg Sir Benfro. Caiff y wybodaeth hon (enw a chyfeiriad e-bost) ei defnyddio at ddibenion mynediad at Barth Dysgu Sir Benfro yn Dysgu ar gyfer dysgu ar-lein ac er mwyn cael gafael ar adnoddau a system BigBlueButton. Gallwch optio allan o'r trefniant hwn ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r staff yn y Ganolfan Dysgu Cymunedol sy'n gweinyddu eich cwrs, neu drwy e-bostio learn@pembrokeshire.gov.uk Bydd optio allan yn effeithio ar eich gallu i gael mynediad at y Parth Dysgu.

Cyfathrebu digidol – Ar adeg cofrestru neu drefnu cwrs, bydd ein gwasanaeth yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio negeseuon testun a negeseuon e-bost at ddibenion gweinyddu a chyfathrebu, lle mae rhifau ffôn symudol a chyfeiriadau e-bost wedi cael eu darparu. Gallwch ddewis peidio â bod yn rhan o'r trefniant hwn ar unrhyw adeg, drwy gysylltu â staff yn y Ganolfan Dysgu Cymunedol sy'n gweinyddu eich cwrs neu drwy e-bostio learn@pembrokeshire.gov.uk

Pa ddata personol sy'n cael eu casglu?

Mae'r categorïau o ddata personol sy'n cael eu casglu fel a ganlyn:

- Enw(au) llawn a chyfenw
- Dyddiad geni
- Manylion cyswllt – Cyfeiriad preswyl gan gynnwys cod post
- Rhyw
- Domisil

Mae categorïau dewisol eraill ar gyfer casglu data personol yn cynnwys:

- Manylion cyswllt – Rhif(au) ffôn a chyfeiriad e-bost
- Cyfenw yn 16 oed
- Hunaniaeth genedlaethol
- Cymhwyster lefel uchaf a chymhwyster Cymraeg lefel uchaf
- Rhuglder yn y Gymraeg
- Gwybodaeth iechyd a meddygol
- Statws cyflogaeth
- Gwybodaeth gyswllt mewn argyfwng

Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?

Mae'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn ei gwneud yn ofynnol i amodau penodol gael eu bodloni er mwyn sicrhau y caiff eich data personol eu prosesu'n gyfreithlon. Gweler yr amod perthnasol isod:

Erthygl 6 (1)(a) Cydsyniad: mae'r unigolyn wedi rhoi cydsyniad clir i chi brosesu eu data personol at ddibenion cyfathrebu digidol.

Erthygl 6 (1)(e) Tasg er budd y cyhoedd: mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i chi gyflawni tasg ar gyfer eich swyddogaethau swyddogol ac mae i'r dasg neu'r swyddogaeth sail glir yn ôl y gyfraith.

Mae'r categorïau arbennig o ddata personol dewisol sy'n cael eu casglu fel a ganlyn:

- Ethnigrwydd

Rydym yn prosesu'r math hwn o ddata categori arbennig, os caiff ei ddarparu, am ei fod yn hanfodol at ddibenion:

Erthygl 9 (2)(b) Cyflawni'r rhwymedigaethau ac arfer hawliau penodol Cyngor Sir Penfro fel awdurdod ar y cyd â Dysgu Oedolion a'r Gymuned.

Gyda phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth?

Mae'n bosibl y bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol gydag adrannau mewnol, sefydliadau eraill a thrydydd partïon. Bydd hyn yn cynnwys:

- Adran TG Cyngor Sir Penfro
- Llywodraeth Cymru drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
- Coleg Sir Penfro – Data cyfyngedig (enw a chyfeiriad e-bost) ar gyfer mynediad at y Parth Dysgu os caiff eich cwrs ei ddarparu ar-lein neu drwy ddysgu cyfunol.
- Cyrff dyfarnu priodol os caiff eich gweithgarwch dysgu ei achredu

Mae dyletswydd ar Gyngor Sir Penfro i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus y mae'n ei rheoli. Felly, gellir defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i darparu at ddibenion atal a chanfod twyll ac at ddibenion archwilio yn fewnol ac yn allanol.

Am ba hyd rydym yn cadw eich gwybodaeth?

Bydd Cyngor Sir Penfro ond yn cadw eich gwybodaeth cyhyd ag y bydd ei hangen, a byddwn yn cadw'r wybodaeth a ddarperir i ni fel y'i diffinnir yn Atodiad 1 a chaiff eich gwybodaeth ei gwaredu'n ddiogel pan na fydd ei hangen mwyach.

Eich Hawliau

O dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018, mae gennych hawliau fel unigolyn gan gynnwys:

- Yr hawl i gael eich **Hysbysu** – mae gan unigolion yr hawl i gael eu hysbysu am y ffordd y caiff eu data personol eu casglu a'u defnyddio. Mae hwn yn ofyniad tryloywder allweddol o dan GDPR
- Yr hawl i **Gywiro** – mae gennych yr hawl i ofyn am i'ch gwybodaeth gael ei chywiro

- Gall yr hawl i **Gyfyngu** ar brosesu fod yn gymwys – gallwch ofyn i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol. Fodd bynnag, gall hyn oedi neu ein rhwystro rhag darparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ni gadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i **Wrthwynebu** – nid yw hon yn hawl absoliwt a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.
- Yr hawl i **Ddileu** – gallwch ofyn i ni ddileu i brosesu eich data personol, ond gall hyn oedi neu ein rhwystro rhag darparu, neu barhau i ddarparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais, ond mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ni ddal neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i **symud Data** – mae gennych yr hawl i ofyn am i'ch gwybodaeth gael ei throsglwyddo heb ei hatal.
- Yr hawl i beidio â bod yn destun **proses gwneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio**.
- Yr hawl i **Fynediad** – mae gennych yr hawl i ofyn am gopiâu o'ch data personol. Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â:

Mynediad at Gofnodion, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, SA61 1TP

E-bost: accesstorecords@pembrokeshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01437 775798

Cwynion neu Ymholiadau:

Mae Cyngor Sir Penfro yn ymdrechu i gyrraedd y safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, rydym yn cymryd unrhyw gwynion a gawn am hyn o ddifrif. Rydym yn annog pobl i ddwyn rhywbeth i'n sylw os ydynt yn credu bod y ffordd rydym yn casglu neu'n defnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi manylion cynhwysfawr am bob agwedd ar ein proses o gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, rydym yn fwy na pharod i ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol neu esboniad yn ôl yr angen. Dylai unrhyw geisiadau o'r fath gael eu hanfon i'r cyfeiriad isod:

Jo Hendy, Swyddog Diogelu Data, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, SA61 1TP

E-bost: dataprotection@pembrokeshire.gov.uk Rhif ffôn: 01437 764551

Os hoffech wneud cwyn am y ffordd rydym wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y corff statudol sy'n goruchwyllo cyfraith diogelu data:

Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, SK9 5AF

E-bost: wales@ico.org.uk Rhif Ffôn: 0303 123 1113

Mae ein Manylion Cyswllt fel Rheolydd Data fel a ganlyn:


Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 1TP.

Rhif ffôn: 01437 764 551 neu enquiries@pembrokeshire.gov.uk

Ceir manylion gwybodaeth gyswllt ein Swyddog Diogelu Data uchod yn yr adran Cwynion ac Ymholiadau:

Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn:

Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd.



Canllawiau cadw

Mae'r canllawiau cadw canlynol yn seiliedig ar Ddeddf Comisiwn Archwilio Llywodraeth Leol a Chyrff Iechyd 1998 a gymhwysir at weithgareddau cyffredinol a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a weithredir o fis Mai 2018.

Caiff cofnodion ar gyfer prosiectau a ariennir gan yr UE eu cadw yn unol â'r contract gwreiddiol a chânt eu cadw am lawer mwy o amser na'r cyfnod cadw safonol – cyfeiriwch at delerau ac amodau contractau prosiectau ar gyfer manylion a dyddiadau cadw. Mae dogfennaeth yn yr achosion hyn yn cyfeirio at BOB math o ddogfennaeth prosiect h.y. taflenni amser, cofnodion ariannol, cofnodion buddiolwyr, cofnodion arholiadau, gweithgarwch gweinyddu a chyfathrebu cyffredinol.

Ar gyfer gweithgareddau cyffredinol, wrth archifo, argymhellir y dylid ffeilio cofnodion "tebyg" mewn blychau archifo gan ei bod yn haws eu hadolygu, am fod ganddynt gyfnodau cadw gwahanol.

Yr opsiynau a argymhellir yw:

- Taflenni cyflog/hawliadau tiwtoriaid
- Cofnodion ariannol (copïau gwreiddiol yn unig)
- Cofnodion buddiolwyr
- Cofnodion arholiadau
- Gweithgarwch gweinyddu a chyfathrebu cyffredinol

Mae'n **RHAID i'r dyddiad adolygu dinistrio** gael ei nodi'n glir ar du allan pob blwch storio a dylai pob blwch gynnwys rhestr drosglwyddo, sy'n manylu ar gynnwys y blwch. Mae'n rhaid i gopi o restr drosglwyddo cynnwys pob blwch archif gael ei gadw yn y Ganolfan Dysgu Cymunedol neu swyddfa'r Gwasanaeth er mwyn cyfeirio ato.

Mae'n rhaid i Ganolfannau Dysgu Cymunedol a Gwasanaethau storio a chadw cofnodion yn ddiogel am y flwyddyn gyfredol A dwy flwyddyn flaenorol lawn ar safle'r Ganolfan Dysgu Cymunedol neu'r Gwasanaeth. Dylai dogfennau hyn y mae angen eu cadw gael eu storio yn Uned Rheoli Cofnodion Cyngor Sir Penfro. Mae'n rhaid i gopiâu o restrau trosglwyddo cynnwys pob blwch archif yn yr Uned Rheoli Cofnodion hefyd gael eu cadw yn y Ganolfan Dysgu Cymunedol neu swyddfa'r Gwasanaeth er mwyn cyfeirio atynt.

Mae angen archifo a chadw **dogfennau prif ffynhonnell**. Caiff anfonebau, a gaiff eu sganio, eu cadw'n ganolog gan Gyngor Sir Penfro – nid oes angen archifo llungopiâu o anfonebau.

Taflenni cyflog/hawlio ac unrhyw hawliadau nas talwyd: I'W CADW AM 10 MLYNEDD LAWN ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y maent yn ymwneud â hi (at ddibenion pensiwn).

Cofnodion absenoldeb cyflogeion:

- Absenoldeb tosturiol – mae angen cadw'r flwyddyn gyfredol ynghyd â dwy flwyddyn galendr
- Ceisiadau i gario gwyliau blynyddol ymlaen a cheisiadau o'r fath sydd wedi'u cymeradwyo – y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol
- Cofnod o wyliau blynyddol a gymerwyd – mae'n rhaid i'r rheolwr llinell ei gadw ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol
- Amser i fwrdd yn lle tâl – mae'n rhaid i'r rheolwr llinell ei gadw ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol
- Caiff ffurflenni absenoldeb eu cadw gan staff Adnoddau Dynol

Gohebiaeth gyffredinol, amcangyfrifon, gan gynnwys cyfrifiadau ac ystadegau: I'W CADW AM 3 BLYNEDD LAWN ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y maent yn ymwneud â hi (at ddibenion cydymffurfiaeth ariannol).

Prif gofnodion ariannol – Llyfrau derbynebaw, cofnodion bancio ac anfonebau gwreiddiol: I'W CADW AM 6 BLYNEDD LAWN ar ôl diwedd cyfnod archwilio'r flwyddyn ariannol y maent yn ymwneud â hi (at ddibenion grantiau a chydymffurfiaeth ariannol).

Ar ôl terfynu cyflogaeth – Ffeiliau personél, copïau o lythyrau penodi, copïau o eirdaon contractau, gohebiaeth gysylltiedig a chofnodion absenoldeb/salwch: Dylai unrhyw ddogfennau gwreiddiol gael eu hanfon at staff Adnoddau Dynol i'w cadw ar ôl terfynu cyflogaeth a dylai unrhyw gopïau gael eu dinistrio.

Ffurflenni cofrestru, cofrestrau, rhestrau dosbarthiadau, cofnodion arholiadau, ffurflenni gwerthuso, PSLs, ac ati: I'W CADW AM 6 BLYNEDD LAWN ar ôl diwedd cyfnod archwilio'r flwyddyn ariannol y mae'r grant yn ymwneud â hi (at ddibenion chydymffurfiaeth grantiau).

Adroddiadau archwilio: I'W CADW AM 2 FLYNEDD ar ôl clirio ffurfiol gan yr archwilydd penodedig (at ddibenion cydymffurfiaeth ariannol).

Cofnodion allweddol sy'n ymwneud ag adeiladau a gwaith peirianeg megis arolygon, cynlluniau safle, lluniadau, rhestru meintiau, dogfennau contractau, gan gynnwys unrhyw rai y rhoddwyd y gorau iddynt neu a ohiriwyd, gweithredoedd, dogfennau prydlesu, polisïau yswiriant, stocrestrau, prisiadau – I'W CADW'N BARHAOL OS MAI DOGFENNAETH WREIDDIOL YDYW.

Mae **Cymunedau yn Gyntaf** wedi cadarnhau mai ei chyfnod cadw gofynnol yw 5 MLYNEDD LAWN ar ôl diwedd cyfnod y grant y maent yn ymwneud ag ef. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, mae cyllid arall yn gysylltiedig â'r gweithgarwch felly caiff y cyfnod cadw ei bennu gan y cyllidwr sydd â'r gofyniad hwyaf.

Dylai archifau gael eu hadolygu o bryd i'w gilydd. NI DDYLID DINISTRIO UNRHYW EITEMAU nes eu bod wedi cael eu harchwilio a bod y Cydgysylltydd Dysgu Gydol Oes priodol wedi cytuno y gellir eu dinistrio.

Cronfa Ddata Gwybodaeth Myfyrwyr (SID) – Caiff unrhyw gofnodion dysgwyr, cofnodion tiwtoriaid neu gofnodion gweithgarwch nad ydynt yn gyfredol, sy'n hŷn na 10 mlynedd ar ôl dyddiad diwedd y cwrs, eu dileu o'r system mewn proses flynyddol.